**Pwyllgor Safonau**

**12 Chwefror 2025**

Yn bresennol (yn bersonol):
Mr J Daniels, Mr J Hogg a Dr R Plummer.

Yn bresennol (o bell):
Ymunodd y Cynghorydd M James â'r cyfarfod ar gyfer eitem 3, ethol yr Is-Gadeirydd.

Swyddogion yn Bresennol
Michael Kent (Swyddog Monitro), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Caroline Llewellyn (Cofnodion).

(Parc Llanion, Doc Penfro: 12.30pm – 13.15pm)

**1. Materion Personol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i John Hogg i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Hefyd dywedodd bod Mrs Wendy Taylor wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor, a diolchodd iddi am ei chyfraniad. Cyfeiriwyd yn ogystal at farwolaeth drist y Cynghorydd Peter Morgan, cyn-Aelod o'r Pwyllgor, fu farw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a diolchwyd am bopeth yr oedd wedi'i gyfrannu.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mr P Davies a'r Cynghorydd Dr S Hancock MBE.

**3. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Ar gynnig Dr Plummer, ac a eiliwyd gan y Cynghorydd James, etholwyd Mr John Hogg yn Ddirprwy Gadeirydd.

**4. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad personol cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai 2024 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig Dr Plummer, ac a eiliwyd gan Mr Daniels **PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai 2024 a'u llofnodi.

**6. Log Gweithredu**

Nodwyd bod yr hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol iawn, a gofynnwyd i'r swyddogion sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i Aelodau newydd o'r Pwyllgor adeg eu penodi.

**5. Diweddariad llafar ar gyfarfod Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2025**

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Plummer am fynychu'r cyfarfod ar ei ran. Dywedodd bod cyflwyniadau wedi'u gwneud ar yr adolygiad o'r Fframwaith Moesegol ac ar y trefniadau o gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, adroddiad McCulloch (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru), a'r ymgynghoriad ynghylch a ddylai'r Ombwdsmon ystyried dychwelyd i'r arfer blaenorol o roi gwybod i'r Aelod cyhuddedig o'r gŵyn unwaith y derbynnir y gŵyn, gwrandawiadau'r panel dyfarnu, a phrofiad eraill ar Wrandawiadau'r Pwyllgor Safonau, ac yn olaf y Gynhadledd ar y Safonau Cenedlaethol. Hefyd bu trafodaeth ynghylch tâl Aelodau cyfethol. Ychwanegodd bod y cyfarfod wedi bod yn ddiddorol ac y byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu dosbarthu maes o law.

**6. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2024/25**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Monitro a gyflwynodd ei adroddiad blynyddol oedd yn cynnwys gwybodaeth am gylch gorchwyl y Pwyllgor, Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, Cwynion, Tueddiadau, Protocol Datrysiad Lleol, Gollyngiadau, Polisi ar Gamau Annerbyniol gan Achwynwyr, Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon, a'r ymgynghoriad gan yr Ombwdsmon ar Weithredu'r Cod Ymddygiad.

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei gyflwyno i Aelodau'r Awdurdod yn y misoedd nesaf.

O ran yr Adolygiad Barnwrol y cyfeiriwyd ato yn ei adroddiad o dan y pennawd cwynion, dywedodd y Swyddog Monitro y rhoddwyd caniatâd i symud ymlaen ar ddau o'r pump sail, a'i bod yn debygol y byddai'r Awdurdod yn parhau i wrthwynebu'r hyn a wnaed. Hefyd dywedodd bod yr Awdurdod wedi cyflwyno ymateb i ymgynghoriad yr Ombwdsmon yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Bu peth trafodaeth ynglŷn â natur y cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon, ac a oedd unrhyw wersi i'w dysgu o'r cwynion hynny. Dywedodd y swyddog bod pob un o'r achosion yn wahanol, ond bod rhai yn ymwneud â cheisiadau cynllunio lle'r oedd yr ymgeiswyr wedi bod yn anhapus â'r penderfyniad a wnaed, a holwyd a oedd y rhain mewn gwirionedd yn gwynion y dylid bod wedi ymchwilio iddynt. Gan nodi yr awgrymwyd yn yr hyfforddiant y bore hwnnw bod yr Ombwdsmon yn ymdrin â niferoedd cynyddol o gwynion, awgrymodd yr Aelodau y gellid cyfeirio rhai o'r cwynion hyn yn ôl i'r Pwyllgor Safonau iddynt ymdrin â hwy ar lefel leol er mwyn lleddfu'r baich.

Ar gynnig Dr Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd James **PENDERFYNWYD**;

i) nodi'r adroddiad;
ii) cytuno ar yr adroddiad fel sail i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.